

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI
10 IONAWR 2023

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 10 Ionawr 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Ian Hodge, Ray Hughes, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose, a Roy Wakelam

HEFYD YN BRESENNOL FEL ARSYLWYR: Y Cynghorwyr Helen Brown, Debbie Owen a Bernie Attridge

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Chris Bithell, (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd).

Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol),

Y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cadarn yn cynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr Contractau, Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff, Goruchwylwyr Gwastraff, Goruchwyllydd Gorfodi, Rheolwr Gorfodi

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion Gwasanaethau Democraidd

41. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd dim.

42. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Materion yn codi

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at baragraff 37 ar dudalen 4 y cofnodion lle'r oedd yr Hwylusydd wedi cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Dywedodd nad oedd yn nodi'r pwrpas a oedd i fynd i'r afael â pharcio cerbydau y tu allan i ysgolion.

Yna, cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at dudalen 5 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Gosod Cyllideb 2023/23 a oedd yn Rhan 2 a gofynnodd a fyddai Aelodau cael gweld y cwestiynau cyn trafod yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.

Wrth ymateb, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu fod y Swyddogion Cyllid wedi nodi'r cwestiynau a godwyd yn y cyfarfodydd a oedd wedi cael eu casglu. Gan fod y rhain yn Rhan 2 ac nad oedd modd eu cyhoeddi yn y cofnodion, cytunodd i siarad â'r Swyddogion perthnasol i holi a fyddai modd iddo gael copi.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo, fel a gynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Dan Rose a'r Cynghorydd Mike Allport.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

43. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a'r adroddiad Orlhain Camau Gweithredu. Tynnodd sylw at yr eitemau a oedd wedi'u cynnwys i'w trafod yng nghyfarfod mis Chwefror, sef y Strategaeth Coetir, y wybodaeth ddiweddaraf am Newid Hinsawdd, Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft Dŵr Cymru 2024 (Ymgynghoriad Cyhoeddus), a Chynllun Rheoli Parc Gwepira. Yna, cyfeiriodd at yr eitem Cymunedau am Waith a oedd wedi cael ei thynnu'n ôl a gwahoddod y Prif Swyddog i ddarparu gwybodaeth am hyn.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr eitem hon wedi cael ei chynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol oherwydd pryderon ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru. Roedd yn falch iawn o gyhoeddi bod cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer y flwyddyn nesaf a dyna pam bod yr eitem yn cael ei thynnu. Dywedodd y byddai adroddiad yn cael ei ddarparu o fewn y flwyddyn nesaf yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan raglen gyflogadwyedd Cymunedau am Waith.

Cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant wedi trefnu cyfarfod ar gyfer 2 Chwefror a fyddai'n cynnwys eitem ar y cyd ar Barcio Cerbydau Tu Allan i Ysgolion a Gorfodi. Byddai Aelodau o'r Pwyllgor hwn yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod hwnnw ar gyfer yr eitem. Yna fe eglurodd bod y Polisi Profedigaeth yng Nghefn Gwlad yn awr wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod mis Chwefror.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu at weithdy a oedd yn cael ei gynnal ar 24 Ionawr ar "Reoli Mannau Agored, Torri Gwair a Natur". Roedd yna hefyd y Meini Prawf Eithriadau ar gyfer gweithredu terfyn cyflymder 20mya ym mis Chwefror a'r Cynnydd o ran newid Fflyd CSFf i drydan neu danwyddau amgen ym mis Hydref.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr adroddiad Orlhain Camau Gweithredu a gwahoddod y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r rhwydwaith gan Drafnidiaeth Cymru. Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) fod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth fysiau yng Nghymru a oedd wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor a dywedodd fod adolygiad o'r rhwydwaith yn rhan o hyn. Roedd yn dal i fod yn aneglur pryd fyddai hyn yn cael ei weithredu ac y byddai hyn yn aros yn yr

adroddiad Orlhain Camau Gweithredu nes y cynhaliwyd yr adolygiad. Awgrymwyd y dylid cael gwared ar hyn am rŵan nes yr oedd mwy o wybodaeth ar gael a chytunodd y Pwyllgor â hynny.

Yna, cyfeiriodd yr Hwylusydd at Farchnadoedd Canol Tref a dywedodd y byddai Niall Waller yn anfon papur briffio i aelodau'r Pwyllgor yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Wrth gyfeirio at sbwriel o lefydd gwerthu bwyd, eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) fod hyn yn gyfarwyddyd LIC ac awgrymodd y dylid anfon llythyr gan y Pwyllgor hwn yn amlygu'r problemau sy'n cael eu profi. Cytunodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Prif Swyddog ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Yna, cyfeiriodd yr hwylusydd at y gweithdy ar roi terfyn cyflymder 20mya mewn grym, a fyddai yn awr yn cael ei gynnal ym mis Mawrth.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

44. Y STRATEGAETH WASTRAFF

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) yr adroddiad a diolchodd i'r swyddogion am y gwaith sylweddol a wnaed ganddynt. Cynhaliwyd tri adolygiad o'r Strategaeth Wastraff yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf ac roedd y pedwerydd adolygiad presennol yn canolbwyntio ar lefelau perfformiad is y Cyngor a chyflawni'r targedau hynny i osgoi cosbau ariannol. Gosodwyd y targedau statudol ar gyfer awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru a dilynodd y Cyngor y glasbrint hwnnw, gydag un o'r targedau yn 64% eleni a 70% erbyn 2024/25. Y nod oedd anfon 70% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd i'w aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio gyda'r gwastraff gweddilliol (30%) yn cael ei anfon i gyfleuster creu ynni o wastraff.

Darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) wybodaeth am lefelau perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf, yr effeithiau yn dilyn y pandemig a'r dewisiadau ar gael i gyrraedd y targedau statudol. Yna cyfeiriodd yr Aelodau at adrannau penodol o'r adroddiad ac amlinellodd y cefndir deddfwriaethol a'r targedau a osodwyd gan LIC a'r lefelau perfformiad a gyflawnwyd gan y Cyngor. Rhoddwyd gwybodaeth am y dirwyon tordyletswydd, a oedd wedi'u hamlygu fel risg sylweddol i'r Awdurdod. Yn 2021-2022 methodd y targed ailgylchu o 3,314 tunelli a ellir ei gymharu i ddirwy torri rheol posib o £662,888 os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis cyflwyno cosb ariannol.

Darparwyd trosolwg o'r cyfarfod a gynhaliwyd y llynedd gyda'r Gweinidog gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) a oedd yn dilyn gostyngiad o ran perfformiad y flwyddyn flaenorol yn 2020-2021 o 17 tunnell ac fe awgrymodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) ei bod yn debygol y byddent yn cael eu galw

eto eleni i esbonio pam nad oedd yr awdurdod wedi cyrraedd ei dargedau yn 2020-2021. Roedd hyn yn risg sylweddol i'r gwasanaeth gan nad oedd cyllideb i dalu dirwy o'r fath a gallai effeithio ar sut y byddai gwasanaethau yn cael eu darparu yn y dyfodol. Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 19 a oedd yn cynnwys rhagolygon ar berfformiad ar gyfer eleni, a oedd yn dangos pe bai'r awdurdod yn parhau ar y lefel hon, byddai'n cyfateb o 63.17%, a fyddai'n fyr i'r targed o 622 tunnelli gyda dirwy bosibl o fwy na £124,000. Darparwyd trosolwg o'r tunelli a gyflawnwyd dros yr haf a'r gaeaf ac nid oeddent yn gwella gyda gwastraff gweddilliol yn cynyddu. Roedd cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu, ond roedd gwastraff gweddilliol wedi gwneud hefyd, ac nid oedd hyn yn helpu i gyflawni targedau. Darparwyd gwybodaeth am y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) a ddywedodd bod LIC yn ystyried y posibilrwydd o ddod â hwn yn grant economi gylchol a fyddai'n golygu risgiau ariannol ychwanegol i'r Awdurdod. Cyfeiriwyd yr Aelodau at y tabl ar gyfraddau tunelli ar dudalen 20 ac Atodiad 2 a oedd yn cynnwys y sleidiau o'r gweithdai i Aelodau a chymhariaeth o berfformiad Sir y Fflint yn erbyn awdurdodau eraill gyda'r awdurdodau hynny ar y brig ac yn cyflawni'r targedau'n cyfyngu faint o sachau duon y gallai aelwydydd gael gwared arnynt. Yn Sir y Fflint roedd aelwydydd yn cael bin 180 litr a oedd yn caniatáu ar gyfer 90 litr yr wythnos gyda'r awdurdodau hynny a oedd yn perfformio orau yn rhoi cyfyngiad o 60 litr yr wythnos. Gan gyfeirio at y dadansoddiad cadarnhaodd fod 50% o'r gwastraff a oedd wedi'i gynnwys yn y bin du yn ailgylchadwy, roedd 27% ohono yn wastraff bwyd.

Ym mhwynt 1.11, darparwyd crynodeb o'r adborth a gafwyd o'r ddau weithdy i Aelodau a gynhaliwyd ym mis Tachwedd ac fe gadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) bod y methiant i gyflawni'r targedau ailgylchu statudol bellach wedi'i gofrestru fel risg goch ar gyfer y portffolio. Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) at yr ystyriaethau a'r dewisiadau ar dudalen 22 a darparodd wybodaeth fanwl am amllder casgliadau, modelu rowndiau a chostau cysylltiedig. Rhoddwyd gwybodaeth am orfodaeth uwch a ffioedd cynyddol ar gyfer tanysgrifiadau gwastraff gardd ynghyd ag addysg uwch i sicrhau bod mwy o drigolion yn ailgylchu.

Wrth ymateb i sawl cwestiwn gan y Cynghorydd Mike Peers darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) yr ymatebion canlynol.

O ran y dirwyon tordyletswydd, cadarnhaodd fod awdurdodau lleol eraill wedi cael eu dirwyo cyn y pandemig. Eglurodd bob tro roedd yr awdurdod yn methu ei dargedau, roedd cynrychiolwyr o'r Cyngor yn cael eu galw i gyfarfod y Gweinidog i ddarparu esboniad ynglŷn â pham nad oedd y targedau hyn wedi cael eu cyflawni a beth oedd yn cael ei wneud i liniaru hyn.

Gan gyfeirio at y polisi glasbrint, cadarnhaodd ei fod yn cynnwys argymhellion i leihau capasiti'r bin gwastraff gweddilliol, i ddefnyddio biniau 140 litr, lleihau amllder casgliadau a darparu cyngor ar ddim casgliad ymyl palmant ar gyfer gwastraff gweddilliol.

Gan symud ymlaen at orfodaeth gwastraff ochr y ffordd, nid oedd gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) yr wybodaeth wrth law ond cytunodd i ddisbarthu'r wybodaeth i Aelodau yn dilyn y cyfarfod. Cadarnhaodd fod rhybuddion cosb benodedig wedi cael eu cyflwyno a bod swyddogion wedi

targedu ardaloedd i ddarparu addysg ac arweiniad i drigolion. Roedd gwelliannau dros dro yn cael eu gwneud fel arfer ond wedyn roedd yr aelwydydd yn dychwelyd i'w hen arferion. Amlinellodd y broses orfodaeth gwastraff ochr y ffordd tri cham a oedd wedi lleihau'r angen am RhCB.

Yn ôl Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol, y tro diwethaf y bu i'r awdurdod gael ei alw i gyfarfod gyda'r Gweinidog, methwyd y targed o 17 tunnell ond mae'n debygol y bydd cyfanswm eleni tua 600 tunnell a mwy o'r targed. Dywedodd nad oedd rhai o'r dewisiadau ar gael yn fforddiadwy ond addysg oedd y ffordd ymlaen, gan dargedu wardiau a oedd yn rhoi deunyddiau i'w hailgylchu yn eu biniau. Gobeithiwyd gwneud hyn ar draws Sir y Fflint.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) na fyddai hyn yn ddigon i gyflawni'r targed o 70% erbyn 2024 ar ei ben ei hun gyda'r hyn a oedd yn cael ei gasglu rŵan a bod angen gwneud mwy i gyfyngu faint o wastraff gweddilliol oedd yn cael ei gasglu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y dewisiadau ym mhwynt 1.14 a gofynnodd a oedd unrhyw un ohonynt yn rhoi sicrwydd y byddai'r awdurdod yn cyrraedd y targed ailgylchu. Wrth ymateb, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) fod y perfformwyr gorau yn cyflawni hyn drwy gyfyngu faint o wastraff gweddilliol a gesglir fesul aelwyd i 60 litr yr wythnos.

Dywedodd y Cadeirydd na fyddai newid maint biniau neu amllder casgliadau yn unig yn darparu datrysiad ond bod angen addysg hefyd.

Dywedodd y Cynghorydd Mared Eastwood fod 60 litr yr wythnos yn ymddangos i fod yn realistig i drigolion a gofynnodd pa fath o fin fyddai ei angen ar gyfer casgliadau bob tair neu bedair wythnos. Gofynnodd hefyd beth oedd disgwyliad oes y biniau ac a fyddai'n bosibl i gael biniau o ddau faint gwahanol ar yr un pryd. Wrth ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff fod disgwyliad oes y biniau oddeutu 15 mlynedd a'u bod wedi bod yn cael eu defnyddio ers 10 mlynedd bellach heb lawer o ddifrod. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) fod yr awdurdod eisoes yn cynnig biniau mwy (240 litr) i deuluoedd o chwech neu fwy felly ni fyddai hynny'n broblem. Soniodd hefyd, er nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad, bod awgrymiadau wedi cael eu gwneud yn y gorffennol i gynnal cynllun peilot yn targedu ardal benodol i ddeall capasiti biniau ac amllder casgliadau, ac y gellid ystyried hyn eto.

Dywedodd y Cynghorydd Dan Rose y byddai ganddo ddiddordeb yn y posibilrwydd o gynnal cynllun peilot i gasglu gwybodaeth bellach ac fe awgrymodd y byddai cynllun peilot o gasgliadau bob tair wythnos yn amharu llai ar y cyhoedd na chasgliadau bob pedair wythnos.

Teimlai'r Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi mai'r rheswm pam yr oedd y gwasanaeth yn y sefyllfa hon oedd oherwydd nad oedd y perygl o ddirwyon tordyletswydd wedi cael ei gyflwyno i'r cyhoedd i alluogi gwell dealltwriaeth. Teimlai y dylai adnoddau ychwanegol gael eu defnyddio i sicrhau bod strategaethau ar newid ymddygiad pobl yn llwyddiannus. Teimlai ei fod yn annheg i'r Prif Swyddog a Swyddogion gael eu galw i gyfarfod y Gweinidog pan mae etholwyr y sir oedd yn methu ailgylchu, ac yn rhoi gwastraff bwyd yn y bin.

Roedd y credu y dylid anfon taflen i drigolion, gyda'u biliau Treth y Cyngor, a oedd yn amlygu'r sefyllfa roedd y Cyngor yn ei wynebu yn glir, gyda nodyn yn dweud "peidiwch â rhoi hwn yn eich bin du".

Wrth ymateb i sawl cwestiwn gan y Cynghorydd Dan Rose, darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) y canlynol:-

Ynglŷn â'r pwynt am finiau du, cadarnhaodd bod modd eu hailgylchu a'u bod yn cael eu torri'n beledi bach i wneud cynnych arall.

Wrth ymateb i'r ail bwynt am ymgysylltu a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) dywedodd fod adolygiad o effeithiolrwydd perfformiad wedi dechrau ym mis Ebrill 2021 gyda data cymharu ar beth yr oedd awdurdodau lleol eraill wedi'i gyflawni a beth yr oeddent yn ei wneud yn wahanol. Y neges amlwg o'r adolygiad hwn oedd bod yr awdurdodau lleol hynny yn rhoi cyfyngiad ar swm y gwastraff gweddilliol a oedd yn cael ei gasglu ar ymyl y palmant. Roedd yna hefyd gyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio beth allai'r Cyngor ei wneud yn wahanol ac argymhellwyd bod adolygiad yn cael ei gynnal o'r Strategaeth Wastraff, a dyna pam y cynhaliwyd yr adolygiad hwn.

O ran y cwestiwn am orfodi, soniodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) am y cynllun peilot Adnabod Amledd Radio (RFID) a gynhaliwyd gydag ailgylchu gwastraff bwyd yn Sir Ddinbych a dywedodd y gellid edrych ar rywbeth tebyg yn Sir y Fflint.

Wrth ateb y cwestiwn am ddwysedd a swm, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) fod ailgylchu wedi cynyddu o 26% y llynedd a bod gwastraff gweddilliol wedi cynyddu o fwy na 9%. Cadarnhaodd bod y ffigyrau ailgylchu yn 51,000 tonnall yn 2020/21. Roedd trigolion yn ailgylchu mwy ond yn anffodus roedd cyfraddau gwastraff gweddilliol hefyd yn parhau i gynyddu.

Wrth ymateb i'r sylw am blâu a chnofilod yn mynd i mewn i'r sachau duon, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd), cyn belled â bod pobl yn manteisio ar y casgliadau gwastraff bwyd ac ailgylchu wythnosol, ni ddylai fod unrhyw wastraff ar ôl yn y biniau du i'w denu. Roedd hyn ond yn digwydd os oedd nwyddau darfodus neu wastraff bwyd yn cael eu rhoi yn y bin du.

Wrth gyfeirio at deuluoedd mwy, cadarnhawyd bod biniau mwy eisoes yn cael eu darparu i deuluoedd o 6 neu fwy.

Teimlai'r Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Cadarn yn cynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael) fod Cynghorwyr yn rhan o'r datrysiad drwy ddarparu cymorth a chyngor i drigolion ar lefel leol.

Wrth ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Bernie Attridge, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) fod yr Awdurdod wedi symud o'r safle uchaf ond dau i'r trydydd o'r gwaelod drwy Gymru o ran perfformiad ac nad oedd unrhyw beth wedi newid o ran casgliadau, addysg neu orfodi. Mewn gwirionedd, roedd mwy yn cael ei wneud rwan nac yn flaenorol. Cadarnhaodd nad oedd cyfyngiad o ran nifer y bagiau y gallai trigolion eu rhoi allan i'w hailgylchu, a dyna'r rheswm pam y cyflwynwyd y bagiau. Roedd trigolion yn cael

eu hannog i roi sawl bag allan a dylent fod yn cael eu casglu a gofynnodd i'r Cynghorydd Attridge hysbysu'r tîm ynglŷn â pha strydoedd oedd yn cael problemau. Cadarnhaodd hefyd nad oedd y gwastraff o'r gwasanaeth casglu clytiau a chynnyrch hylendid amsugol yn mynd i safle tirlenwi, roedd yn hytrach yn mynd i safle ynni o wastraff.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff fod yr awdurdod weithiau'n defnyddio cerbydau casgliadau ymyl palmant i gasglu deunyddiau i'w hailgylchu, yn enwedig dros y Nadolig a chyfnodau prysur pan roedd y cerbydau casglu gwastraff yn cael eu defnyddio i gasglu deunyddiau i'w hailgylchu, megis cardfwrdd. Gofynnodd i'r Cynghorydd Attridge am y wybodaeth ynglŷn â'r casgliadau sachau duon a fethwyd a byddai'n ymchwilio ymhellach. Roedd yr achosion hyn yn eithaf prin a soniodd am y nifer fach iawn o gwynion a dderbyniwyd dros gyfnod y Nadolig. Ategodd eto, os oedd gan unrhyw Gynghorwyr broblemau yn eu wardiau, dylent anfon e-bost at ei dîm i'w hymchwilio ymhellach.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd fod y sefyllfa'n bryderus iawn gan nad oedd y Cyngor yn gallu fforddio i dalu'r dirwyon tordyletswydd pan oedd cymaint o arbedion eisoes yn cael eu gwneud i alluogi cyllideb gytbwys. Roedd yn rhaid canfod datrysiadau a theimlai'n gadarnhaol y gellid cyflawni hyn oherwydd bod yr awdurdod wedi'i wneud o'r blaen pan yr oedd yn y safle uchaf ond dau drwy Gymru. Efallai na fyddai'n amhoblogaidd i gael casgliadau bob tair neu bedair wythnos fel yr oedd awdurdodau eraill wedi'i wneud neu wario £1m ar finiau newydd oherwydd y bydd ein biniau presennol yn para am rai blynyddoedd eto. Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd Covid wedi newid y ffordd yr oedd pobl yn byw eu bywydau, ond roedd trigolion wedi cydweithredu gyda'r Cyngor yn y gorffennol ac roedd yn hyderus y gellid eu hannog i ymuno i gyrraedd ein targedau ailgylchu. Teimlai fod angen addysg ynghyd ag ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd brys yn hysbysu trigolion o'r hyn oedden nhw a'r Cyngor yn ei wynebu, oherwydd y gallai hyn effeithio ar gyfraddau Treth y Cyngor. Roedd angen dangos agwedd gadarn tuag at y trigolion hynny a oedd yn gwrthod ymuno a helpu i gyrraedd y targedau hyn.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dan Rose, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) y byddai'r awdurdod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth casglu â chymorth rhad ac am ddim ac nad oedd yn cael ei effeithio gan yr adolygiad hwn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen at dai amlfeddiannaeth a gofynnodd tybed a fyddai landlordiaid, ar ôl cael eu trwyddedau, yn gallu talu am finiau cymunedol a oedd yn cael eu casglu'n wythnosol. Cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i siarad â'r Cynghorydd Owen y tu allan i'r cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion cyntaf yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Richard Lloyd ac Ian Hodge.

O ran yr ail argymhelliad, awgrymodd y Cynghorydd Dan Rose ein bod yn aros tan ar ôl y cynllun peilot yn gyntaf ac yn edrych ar y data cyn edrych ar y dewisiadau. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Roy Wakelam.

Wrth gyfeirio at y drafodaeth, dywedodd y Cynghorydd Mike Peers ei fod yn falch iawn o glywed un o'r Aelodau Cabinet yn dweud nad oedd y dewis i leihau capasiti biniau wythnosol yn cael ei gefnogi ac mai addysg oedd y ffordd ymlaen. Dywedodd Aelod Cabinet arall nad oedd yn awyddus i newid i gasgliadau bob tair neu bedair wythnos a gofynnodd bod hyn yn cael ei nodi.

Cafodd y trydydd argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Mike Allport.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad ailgylchu presennol y Cyngor yn erbyn targedau statudol.
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r dewisiadau o ran modelau darparu casgliadau gwastraff amgen ac argymhell i'r Cabinet bod cynllun peilot yn cael ei gynnal i lywio'r broses o wneud penderfyniad er mwyn cyflawni'r targedau ailgylchu statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
Bod y Pwyllgor yn ystyried y cynnig i gynyddu'r ffi danysgrifio ar gyfer gwastraff gardd i adennill costau gweithredu cynyddol.

45. BARGEN DWF GOGLEDD CYMRU - PERFFORMIAD CHWARTER 2

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad perfformiad canol blwyddyn gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ac atgoffodd yr Aelodau o'r sesiwn gyflwyno a gynhaliwyd ar ddechrau'r hydref y llynedd. Roedd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd £240m o arian cyfalaf (£120m gan Lywodraeth Cymru a £120m gan Lywodraeth y DU) i'w wario ar draws pum rhaglen, sef Digidol, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo, Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth a Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel. Nodwyd bod y pum rhaglen yn 'oren' o ran cynnydd a darparodd wybodaeth fanwl am y prosiect Bodelwyddan a dynnwyd yn ei ôl, gyda £10m yn dychwelyd i gronfeydd y Bwrdd Uchelgais. Darparodd y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Ffyrdd, a oedd bellach yn ddisgwyliedig yn 2023, y Porth Gorllewinol a datblygiad Warren Hall. Gobeithiwyd y byddai'r Swyddog Rhaglen ar gyfer Tir ac Eiddo yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod mis Mawrth ac y byddai Swyddogion Rhaglenni eraill yn gallu dod i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Mike Peers, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yn gyntaf at y cwestiwn am fuddsoddi yn y sector preifat ac fe gadarnhaodd fod hyn yn cael ei adolygu'n gyson a'i fod wedi cael ei nodi fel risg oren. Derbyniodd y Swyddog Rhaglen bod angen ymgysylltu'n fwy â'r sector preifat.

Wrth ymateb i'r cwestiwn a oedd yn holi a oedd unrhyw un o'r prosiectau mewn perygl, dywedodd mai'r ateb oedd na, ond bod hyn hefyd yn cael ei adolygu'n gyson.

Gan gyfeirio at y cwestiwn am yr Adolygiad Ffyrdd mewn perthynas â safle Warren Hall, nid oedd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yn deall pam fod ffordd fewnol ar safle Llywodraeth Cymru wedi cael ei chynnwys yng nghwmpas yr Adolygiad Ffyrdd.

Gan symud ymlaen i'r sylw am 440 swydd, roedd yn hyderus y gallai safle Warren Hall ddarparu'r swyddi hyn, yn enwedig ar ôl rhyddhau'r tir ar gyfer tai.

Yn olaf, wrth gyfeirio at y sylw am weithgynhyrchu ar ben uchaf y farchnad, fe amlinellodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) sut yr oedd y dechnoleg optig yn cael ei chanfod, ynghyd â'r technolegau gwyrdd a disgrifiodd pa dechnolegau oedd hefyd yn cael eu hyrwyddo.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Healey fod yr hyn yr oedd y chwe Chyngor wedi'i gyflawni, wrth gydweithio o fewn Bargen Dwf Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau cyllid a chanfod prosiectau mor gadarnhaol, yn gwbl anhygoel. Soniodd am ymweliad trawiadol i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ym Mangor a ariannwyd drwy'r fenter hon. Roedd yn falch o weld cymaint o brosiectau ynni gwyrdd carbon isel, yn enwedig o fewn y sectorau bwyd-amaeth a thwristiaeth a oedd yn dda i gymunedau gwledig.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers a Richard Lloyd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn nodi Perfformiad Chwarter 2.

46. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn trafod y meysydd o Gynllun y Cyngor a oedd yn ymwneud â'r Pwyllgor hwn.

Darparodd wybodaeth fanwl am y pedwar maes risg coch.

- Caffael - ymgysylltwyd â chwmnïau llai i gyflawni prosiectau ynni neu arbedion ynni mewn eiddo a rhoddodd fanylion am y System Brosesu Ddeinamig.
- Cysylltedd Digidol mewn Ardaloedd Gwledig - cyfeiriodd at y cyfarfod ym mis Rhagfyr lle nodwyd hyn fel pwysau gan nad oedd swyddog wedi cael ei benodi. Gobeithiwyd penodi rhywun ar gyfer y rôl cyn y flwyddyn ariannol newydd.
- Gwerth Cymdeithasol - roedd hyn yn rhywbeth a ddylai fynd i bob maes o'r Cyngor.

Adroddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd) ar y risg goch ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Disgwylwyd arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru ar sut yr oedd disgwyl i awdurdodau lleol gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cyhoeddwyd canllawiau drafft i awdurdodau lleol wneud sylwadau arnynt cyn y Nadolig ac roedd sylwadau'r awdurdod wedi cael eu dychwelyd iddynt. Roedd hyn yn parhau i fod yn risg goch gan nad oedd cynllun pendant ar sut yr oedd am gael ei gyflawni. Roedd yr awdurdod yn cynnig adolygu'r Strategaeth Trafnidiaeth Integredig ar gyfer Sir y Fflint i ddeall sut yr oedd hon yn bwydo i mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond nid

oedd modd gwneud hyn nes yr oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu amlinelliad o'u disgwyliadau.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Richard Lloyd ac Ian Hodge.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ac yn ffyddiog y cyflawnid blaenoriaethau canol blwyddyn Cynllun y Cyngor 2022/23.
- (b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ac yn cefnogi'r perfformiad cyffredinol yn ôl dangosyddion perfformiad canol blwyddyn Cynllun y Cyngor 2022/23.
- (c) Bod y Pwyllgor yn fodlon ar yr esboniadau a roddwyd ar gyfer y meysydd lle bu tanberfformiad.

47. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11:42 am)

.....
Y Cadeirydd